Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Crynodeb Gwirio Ansawdd
# Deintyddfa Bridges Dental
# Dyddiad y gweithgarwch: 25 Hydref 2021

Dyddiad cyhoeddi: 29 Tachwedd 2021





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ


Neu drwy:


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru

Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80391-378-0

© Hawlfraint y Goron 2021

# Crynodeb Gwirio Ansawdd

## Ein dull gweithredu

Ymgymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ddeintyddfa Bridges Dental fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae'r practis yn cynnig ystod eang o driniaethau a gwasanaethau preifat a'r GIG.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un
o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygu a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd.  Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein trefniadau sicrwydd a'n dull adolygu yma.

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis ar 25 Hydref 2021, a roddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am ei gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r llinellau ymholi allweddol canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych yn sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych yn diwallu anghenion cleifion Cymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych yn sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

## Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi dylunio a rheoli'r amgylchedd gofal i'w gadw mor ddiogel â phosib i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Asesiad risg iechyd a diogelwch
- Asesiad risg COVID-19 y practis
- Polisi glanhau
- Y Weithdrefn Weithredu Safonol ar gyfer COVID-19

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym am y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i amgylchedd y practis o ganlyniad i'r pandemig. Mae cyfarpar diogelu personol ar gael i staff a chleifion ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo ym mhob rhan o'r adeilad. Roedd amserlenni glanhau wedi cael eu haddasu i alluogi glanhau amlach. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddaru ei bolisïau a'i weithdrefnau yn barhaus yn unol â diweddariadau a chyngor gan gyrff allanol. Roedd hyn yn cynnwys y canllawiau a gyhoeddir gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru.

Dywedwyd wrthym am y newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn y mannau cymunol a'r ystafelloedd triniaeth. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau cadw pellter cymdeithasol a chyfyngu ymweliadau â'r practis i gleifion sydd ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw yn unig. Mae'r cadeiriau yn yr ardal aros wedi'u trefnu er mwyn sicrhau cadw pellter cymdeithasol. Mae gwybodaeth i gleifion yn cael ei dangos ar sgriniau teledu yn yr ardaloedd aros. Mae mannau dynodedig i'r staff wisgo a diosg[1] cyfarpar diogelu personol ac mae'r holl eitemau diangen wedi'u symud o'r ystafelloedd triniaeth.

Cyn apwyntiad, bydd aelod o staff yn ffonio'r claf ac yn cwblhau holiadur sgrinio COVID-19. Mae'r staff hefyd yn rhoi gwybodaeth i gleifion am daith y claf yn y practis. Mae'r mesurau hyn yn helpu i leihau'r amser y mae claf yn treulio yn y ddeintyddfa.

Pan fydd cleifion yn cyrraedd ar gyfer apwyntiadau, gofynnir iddynt a oes ganddynt unrhyw symptomau COVID-19. Darperir hylif diheintio dwylo wrth fynd i mewn i'r adeilad. Mae'n

[1] Gwisgo – gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg – tynnu cyfarpar diogelu personol.

rhaid gwisgo masgiau wyneb hyd nes bod y claf yn eistedd yn y ddeintyddfa, oni bai ei fod wedi'i eithrio.

Dywedwyd wrthym mai ychydig iawn o gleifion oedd gan y practis nad Saesneg oedd eu mamiaith. Fodd bynnag, mae deintydd Cymraeg gan y practis sy'n gallu darparu gwasanaethau a thriniaethau trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod hawl gan gleifion nad ydynt y siarad Saesneg dod â ffrind neu berthynas i gyfieithu.

Dywedwyd wrthym fod gan bob ystafell driniaeth yr offer i gynnal gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau.[2] Mae unedau awyru ac echdynnu wedi'u gosod mewn tair o'r ystafelloedd triniaeth i hwyluso'r broses o gael gwared ag aer halogedig.

Mae nifer yr apwyntiadau wedi'i leihau i alluogi cyfnod segur[3] digonol ac i alluogi digon o amser i ddiheintio'r ystafelloedd triniaeth rhwng cleifion. Dywedodd staff nad oedd hyn wedi cael unrhyw effaith ar brofiad y claf nac ar y gofal yr oedd cleifion yn ei dderbyn.

**Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.**

[2] Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r awyr neu drwy ddefnynnau.
[3] Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosolau.

## Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor dda y mae'n rheoli'r risg o heintiau, er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Copi o archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 a'r cynllun gweithredu
- Polisi glanhau domestig
- Polisi atal a rheoli heintiau
- Rhestr wirio ddyddiol ar gyfer atal heintiau / amserlenni glanhau'r ddeintyddfa
- Gwiriadau dyddiol ac wythnosol o'r awtoclaf
- Taflen gofnodi ddyddiol ac wythnosol ar gyfer y glanhäwr uwchsonig
- Rhestr wirio ddyddiol ar gyfer atal heintiau

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Rhoddwyd dogfennau amrywiol inni ar gyfer atal a rheoli heintiau, a oedd yn cynnwys polisi glanhau. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni a chofnodion glanhau'r practis ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer deintyddol.

Dywedwyd wrthym am y systemau sydd ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau, a'u bod yn eu cyflawni. Cafwyd tystiolaeth o hyn yn y polisi glanhau ac yng Ngweithdrefn Weithredu Safonol y practis ar gyfer COVID-19. Yn ogystal â hyn, dywedwyd wrthym fod hyfforddiant cyfarpar diogelu personol, gan gynnwys hyfforddiant masgiau FFP3 a gwisgo a diosg[4] cyfarpar diogelu personol, wedi'i gyflwyno i'r holl staff.

Dywedwyd wrthym fod y galwad brysbennu[5] yn helpu i nodi'r cyfarpar a fydd ei angen pan fydd gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau yn cael eu cynnal. Mae hwn yn cael ei baratoi ymlaen llaw er mwyn lleihau'r angen i staff fynd i mewn i'r ystafell driniaeth, neu'i gadael,

[4] Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.
[5] Brysbennu yw'r broses o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, rhagolwg ac argaeledd adnoddau.

yn ystod y weithdrefn. Dywedodd y staff wrthym fod nyrs gyfaill ar gael pe bai angen rhywbeth. Mae'r arferion hyn yn sicrhau bod y risg a berir gan heintiau yn cael ei lleihau yn ystod gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau.

Eglurodd staff y cysylltid â chleifion dros y ffôn cyn eu hapwyntiad a gofynnid cyfres o gwestiynau iddynt i bennu a oeddent yn peri risg o drosglwyddo'r feirws. Gofynnwyd i gleifion a oedd yn arddangos symptomau COVID-19 neu a oedd yn aros am ganlyniad prawf COVID-19 aros gartref a pheidio â mynychu'r ddeintyddfa.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis stoc ddigonol o gyfarpar diogelu personol ac yr ymgymerir â gwiriadau stoc bob wythnos ac archebir unrhyw gyflenwadau sydd eu hangen gan reolwr y practis.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth o gofnodion profi dyddiol ac wythnosol ar gyfer yr awtoclaf a nodwyd nad oedd yr adran ar gyfer gwiriadau wythnosol o'r cloeon drws a'r microswitsh wedi'i llenwi ar rai o'r cofnodion. Ar adeg y galwad, gwnaethom ofyn i staff adolygu hyn. Gwnaethom argymell bod yr holl adrannau'n cael eu llenwi. Dylid nodi os yw'r adran yn amherthnasol ac ni ddylid ei gadael yn wag.

## Llywodraethu / Staffio

Fel rhan o'r safon hon, gofynnodd AGIC gynrychiolwyr y gwasanaeth ynghylch sut maent wedi addasu eu gwasanaeth yn sgil effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Ymhlith y prif ddogfennau a welwyd gennym roedd:

- Polisi cydsynio
- Cynllun parhad busnes
- Archwiliad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol)
- Copi o'r datganiad o ddiben diweddaraf
- Copi o'r daflen wybodaeth i gleifion ddiweddaraf

**Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:**

Dywedwyd wrthym fod y staff yn derbyn hyfforddiant rheolaidd a'u bod wedi cael yr hyfforddiant adfywio cardio-pwlmonaidd diweddaraf. Dywedwyd wrthym fod rhai meysydd wedi cael eu hesgeuluso a bod hyn o ganlyniad i'r pandemig, a oedd wedi arwain, yn anffodus, at ganslo cyrsiau wyneb yn wyneb.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, gyda rheolwr y practis yn goruchwylio unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC). Cyflwynwyd unrhyw ganllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i staff trwy gyfarfodydd tîm a'u grŵp ap negeseua.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Roedd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad defnydd diogel o offer pelydrau-X, archwiliad ansawdd radiograffau, ac archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Mae gan staff y cyfrifoldeb am gynnal y gwiriadau wythnosol, cofnodi'r canfyddiadau, ac archebu stoc yn ôl yr angen.

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben[6] a'r daflen gwybodaeth i gleifion,[7] a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

**Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:**

Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau a gynhaliwyd yn y practis ond gwnaethom argymell bod angen ehangu cwmpas yr archwiliadau i gynnwys meysydd eraill, gan gynnwys archwiliad o gardiau cofnodion. Dylid ystyried adnoddau ar-lein – er enghraifft, Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) – er mwyn sicrhau bod rhaglen o archwiliadau mewnol gan y practis sy'n ei alluogi i ddangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol.

Yn ogystal â'r uchod, gwnaethom argymell bod archwiliad a chynllun gweithredu Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn cael eu dyddio ar y ddogfen wirioneddol ac nid ar enw'r ffeil sydd wedi'i chadw yn unig, er mwyn dangos tystiolaeth glir o bryd y cawsant eu cwblhau.

Mae Rheoliad 23[8] o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a pharatoi adroddiad ysgrifenedig ar weithrediad y practis. Felly, rydym yn argymell bod yr unigolyn cyfrifol yn adolygu gofynion Rheoliad 23 ac yn cynnal yr ymweliad cyn gynted â phosibl. Dylid cyflwyno'r adroddiad a lunnir yn dilyn yr ymweliad i AGIC a'r unigolion eraill a nodir yn Rheoliad 23.

Ni chawsom dystiolaeth i ddangos cydymffurfedd cyfredol â hyfforddiant i staff. Felly, rydym yn argymell bod tystiolaeth o'r hyfforddiant yn cael ei chyflwyno ar unwaith i AGIC yn unol â gofynion y ffurflen hunanasesu. Mae angen tystiolaeth o hyfforddiant gorfodol ac y mae'n rhaid i hon gynnwys tystysgrifau adfywio cardio-pwlmonaidd, diogelu, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol), ac atal a rheoli heintiau.

Dywedwyd wrthym fod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar ffeiliau'r staff i ddangos gofynion eu datblygiad proffesiynol parhaus. Fodd bynnag, nid oedd system ganolog i gofnodi hyfforddiant staff. Gwnaethom argymell y dylid ystyried datblygu cofnod hyfforddiant. Byddai hwn yn galluogi data hyfforddiant ar gyfer yr holl staff i gael ei gasglu mewn un ddogfen ac yn darparu man cyfeirio cyflym wrth wirio dyddiadau darfod hyfforddiant.

Dywedwyd wrthym fod rhai achosion o hyfforddiant yn mynd heibio i ddyddiadau darfod, gan gynnwys hyfforddiant diogelu. Argymhellwn fod cyrsiau'n cael eu cyrchu ar gyfer staff cyn

[6] Ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad sy'n cael ei lunio yn unol â Rheoliad 5(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 ac Atodlen 1.
[7] Gwybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 o'r rheoliadau uchod.
[8] Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn gofyn am ymweliadau â phractis deintyddol preifat gan y darparwr cofrestredig.

gynted â phosibl i sicrhau bod sgiliau a gwybodaeth yn gyfredol. Dylid ystyried pecynnau e-ddysgu os nad oes modd cynnal hyfforddiant wyneb yn wyneb.

# Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella yn ystod ein gwiriad ansawdd a lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r rhain, darperir cynllun gwella yn rhoi manylion ar ddiwedd y crynodeb gwirio ansawdd hwn.

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Os na nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod y gwiriad ansawdd hwn, ni fydd angen cynllun gwella, a dim ond yr adroddiad cryno ar y gwiriad ansawdd a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Cynllun gwella

Lleoliad: Deintyddfa Bridges Dental

Dyddiad y gweithgarwch: 25 Hydref 2021

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae’n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i’r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

| Cyfeirnod | Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu cofnodion yr awtoclaf a sicrhau bod pob adran yn cael ei llenwi. Dylid nodi os yw adran yn amherthnasol. | Rheoliad 16 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safon 3.5: Cadw cofnodion o’r Safonau Iechyd a Gofal | Moyra Hannam-Harris (Prif Nyrs Deintyddol) i sicrhau bod cofnodion yr awtoclaf yn gyflawn.<br><br>Bydd taflen cofnodion wythnosol yn cael ei chreu i sicrhau bod yr holl wiriadau'n cael eu cwblhau. | Moyra Hannam-Harris | 25 01 2022 |
| 2 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu ei rhaglen archwilio i gynnwys | Rheoliad 16 (1) (a) a (2) (d) (ii) o Reoliadau | Nicola Mahoney (rheolwr y practis) i gwblhau archwiliad cardiau cofnodion. Bydd Nicola Mahoney | Nicola Mahoney | 25 01 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | archwiliad cardiau cofnodion ac i sicrhau bod gan y practis amserlen o archwiliadau mewnol sydd yn ei alluogi i ddangos arfer gorau wrth ddarparu gofal deintyddol. | Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safon 3.3: Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a Safon 3.5: Cadw cofnodion o'r Safonau Iechyd a Gofal | (rheolwr y practis) yn creu taenlen archwilio mewnol i sicrhau bod yr holl archwiliadau mewnol yn cael eu cwblhau yn ôl Rheoliad 16 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. | | |
| 3 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod archwiliadau, ac archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn benodol, yn cael eu dyddio yn ôl y dyddiad pan gawsant eu cynnal. | Rheoliad 16 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safon 3.3: Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi a Safon 3.5: Cadw cofnodion o'r Safonau Iechyd a Gofal | Nicola Mahoney i sicrhau bod archwiliadau a gynhelir yn y dyfodol yn cael eu dyddio.<br><br>Archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (tystiolaeth wedi'i lanlwytho) wedi'i gwblhau 04.2019 a chynllun gwella Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (tystiolaeth wedi'i lanlwytho) wedi'i gwblhau 06.2019. | Nicola Mahoney | Ar unwaith |
| 4 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig gwblhau adroddiad Rheoliad 23 a sicrhau bod yr adroddiad yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliad. Rhaid anfon copi at AGIC. | Rheoliad 23 (1); (2) (a) (b) ac (c); (3); (4) (a) (b) ac (c); (5) (a) a (b) (i) (ii); (6) o | Dr S A Shaw a Dr G Melhuish-Thomas i gwblhau adroddiad Rheoliad 23 ac anfon copi at AGIC. | Dr S A Shaw a Dr G Melhuish-Thomas | 25 01 2022 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | | | |
| 5 | Rhaid i'r darparwr cofrestredig gyflwyno tystiolaeth o hyfforddiant staff i AGIC a chynnwys y meysydd a nodwyd yn yr adroddiad. Rhaid cyflwyno'r wybodaeth hon erbyn 15 Tachwedd 2021. | Rheoliad 17 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safon 7.1: Y gweithlu o'r Safonau Iechyd a Gofal | Nicola Mahoney i ddarparu tystiolaeth o wybodaeth hyfforddiant gorfodol i staff ar gyfer yr holl gydweithwyr.<br><br>Bydd Nicola Mahoney yn creu a chwblhau archwiliad o gofnodion staff: cydymffurfedd staff â datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant gan ddefnyddio'r templed a ddarparwyd. | Nicola Mahoney | 15 11 2021 |
| 6 | Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried rhoi cofnod hyfforddiant canolog ar waith a fydd yn nodi cydymffurfedd hyfforddiant yr holl staff. | Rheoliad 17 (1) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safon 7.1: Y gweithlu o'r Safonau Iechyd a Gofal | Bydd Nicola Mahoney yn rhoi cofnod hyfforddiant canolog ar waith ar gyfer yr holl staff. Bydd hyn yn sicrhau bod nodi cydymffurfedd â hyfforddiant yn hawdd. | Nicola Mahoney | 25 01 2022 |
| 7 | Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu unrhyw hyfforddiant sydd wedi'i esgeuluso, gan gynnwys diogelu, a sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael ei gyrchu a'i gyflwyno cyn gynted â phosibl fel bod y staff yn meddu ar y | Rheoliad 17 (1) (a) a (3) (a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Hyfforddiant diogelu plant ac oedolion wedi'i gwblhau ym mis Gorffennaf 2019. Gwnaeth yr holl staff fynychu'r hyfforddiant.<br><br>Nicola Mahoney i adolygu'r holl hyfforddiant a sicrhau bod yr | Nicola Mahoney | Ar unwaith |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | sgiliau a gwybodaeth ddiweddaraf. | Safon 7.1: Y gweithlu o’r Safonau Iechyd a Gofal | hyfforddiant angenrheidiol yn cael ei gyrchu a'i gyflwyno. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Enw:
Nicola
Mahoney

Dyddiad:
15
Tachwedd
2022